

Cyngor Cymuned Llanelian (331)

Cofnodion cyfarfod Ionawr 12, 2021 a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo am 7yh.

Presennol: Ian Evans, Dafydd Griffiths, John Griffiths, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Thomas Jones, Elfyn Hughes, Hefina Williams, Arfon Morgan, Cyng Aled Morris Jones, Carli Evans Thau (Clerc)

Ymddiheuriadau: Cyng Richard Griffiths

- 1** **Croeso**
Cadeirwyd y cyfarfod gan Ian Evans ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol a dymuno blwyddyn newydd dda.
- 2** **Datgan Diddordeb**
Ian Evans – bu i'r cadeirydd ddatgan diddordeb ar unrhyw fater yn ymdrin a thal i'r clerch. Bydd unrhyw drafodaeth ar y gyllideb a thal i'r clerch yn cael ei gadeirio gan Elfyn Hughes.

Ian Evans – unrhyw drafodaeth ar lwybrau cyhoeddus.
- 3** **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**
Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod 1/12/2020. Cynnig Thomas Jones, eilio John Griffiths, cefnogi'n unfrydol.
- 4** **Materion yn Codi o'r Cofnodion**
Nododd y clerch ei bod wedi anfon dogfen i'r aelodau cyn y cyfarfod gydag unrhyw ddiweddariadau.
 - 4.1** **Materion Prifffyrdd** – bu i'r clerch ddarllen ebost gan Alun Roberts er gwybodaeth. Diolchwyd i Elfyn Hughes am dynnu sylw bod camgymeriad ar yr arwyddion ar gyffordd Lon Ysgol, mae'r mater wedi ei ddatrys bellach. Diolchwyd i Carol Whitaker am hyrwyddo'r newid ar dudalen Facebook Penysarn. Gofynnwyd os oedd diweddariad ynglyn a gosod palmant yn y sgwar i ddiogelu teuluoedd yn cerdded i'r ysgol. Nododd y clerch nad oedd gwybodaeth pellach wedi ei dderbyn, cytuno anfon y cynllun i'r aelodau eto er gwybodaeth. CET
 - 4.2** **Polisi Cynllunio** - cadarnhawyd derbyn gwybodaeth pellach gan Nia Jones yn yr adran bolisi, a bod y wybodaeth hwnw wedi ei anfon allan i'r aelodau drwy ebost.
 - 4.3** **Tir tu ol i dai pensiynwyr** – nid oes ymateb gan CSYM ynglyn a'r tir yma eto, Aled Jones i gysylltu eto a'r swyddogion perthnasol. AMJ
- 5** **Sedd Wag**
Wedi trin a thrafod, cytuno yn unfrydol cyfethol Alan Williams i'r sedd wag. Y clerch i gysylltu ag o a'i wahodd i ymuno a'r cyfarfod nesaf. CET
- 6** **Diweddariadau**
 - 6.1** **Caeau Chwarae** – cadarnhawyd bod y gwaith i osod y 'goal ends' wedi ei gwblhau erbyn hyn. Cafwyd wybod gan Glenys Jones ei bod wedi cwrdd a dau gontractiwr ym Maes Llwyfo a wedi derbyn un pris am darmacio'r llwybr. Arfon Morgan i anfon manylion cyswllt mwy o gwmnïau posib er gwybodaeth. Bydd angen o leiaf tri pris am maint y gwariant.

Cafwyd wybod bod cais grant wedi ei gyflwyno gan y Neuadd Bentref i Medrwn Mon am £1.6k i baentio gemau ar y tarmac ym Maes Llwyfo i hyrwyddo chwarae ac ymarfer corff i blant. Bu'r Cyngor gefnogi'r cais yn unfrydol. Os na fydd y cais grant yn llwyddianus, byddai posib trafod y prosiect yng nghyfarfod Cronfa Ty Moel Isaf. AM GJ
 - 6.2** **Llithrfa** – bydd y pwyllgor yn cwrdd 21/1/2021.
 - 6.3** **Mynwent** – mae Richard Edwards yn parhau a'r gwaith clirio a'r fynwent yn dod yn ei flaen yn dda. Nodwyd bod ffioedd claddu fel arfer yn codi pob mis Ebrill ond nad oedd cynydd wedi bod Ebrill 2020 oherwydd y pandemig. Cytuno cynnwys yn eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf a gwirio beth sydd yn digwydd yn lleol. CET
 - 6.4** **Cyllid a Pholisi** – nodwyd bod y pwyllgor wedi cwrdd a bod cofnodion y cyfarfod wedi ei anfon at yr aelodau er gwybodaeth. Bydd trafodaeth pellach wrth drafod y gyllideb (isod).
 - 6.5** **Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985)** – bydd y pwyllgor yn cwrdd mis nesaf cyn cyfarfod y Cyngor llawn. Nodwyd bod peth gwaith i osod meinciau wedi ei gwblhau bellach, bu i'r cadeirydd ddiolch i'r rheini sydd wedi bod ynghlwm a'r gwaith. Gobeithir gallu dechrau ar y gwaith i osod meinciau

newydd ger y traeth dros yr wythnosau nesaf yn ddibynol ar waharddiadau covid.

- 6.6 Llwybrau** – bu Ian Evans ddatgan diddordeb a pheidio cymryd rhan yn y drafodaeth. Bydd y pwyllgor yn cwrdd 25/1/2021. Cadarnhaodd y clerc bydd yn anfon mapiau yn dangos gwahanol cylchdeithiau i'r aelodau cyn y cyfarfod er mwyn cadarnhau rhaglen torri ar gyfer y tymor nesaf.

Trafodwyd y gwaith angenrheidiol i dorri y llwybr o Tyn Gamdda heibio Llys Gwynt tuag at Glan Gors Fawr. Ceir pris o £250 gan y contractiwr cyfredol i wneud y gwaith. Cytuno mynd ymlaen a'r gwaith, cynnig Thomas Jones, eilio Elfyn Hughes. Nodwyd nad oedd y gwaith yma yn datrys y broblem o fynediad i'r gors, ond byddai posib cwrdd ag Arwel Evans ar y safle i drafod ymhellach unwaith bydd gwaharddiadau covid yn galluogi hyn.

6.7 Pwyllgorau Allanol –

- 6.7.1 Ysgol Penysarn – cafwyd wybod gan Glenys Jones bod y llywodraethwyr wedi penodi pennaeth newydd i'r Ysgol. Mae Miss Delyth Lemin Roberts yn bennaeth profiadol, ac fe fydd yn gyfrifol am safle Penysarn yn unig. Cytuno bod hyn yn arwydd da am ddyfodol yr ysgol.

- 6.7.2 Ymateb i Ymgynghorion Cynllunio - cafwyd adroddiad gan Dafydd Griffiths yn dilyn y sesiwn gwybodaeth. Pwysleisiodd pwysigrwyd ymateb i ymgynghorion a nodi phryderon, does dim pwrpas cwyno os nad ydych wedi ymateb.

- 6.7.3 Cysgodfannau Bws – cadarnhaodd y clerc ei bod wedi anfon gwybodaeth i'r aelodau yn dilyn cyfarfod gyda Lizzie Wynne. Bydd posib trafod ymhellach yng nghyfarfod Cronfa Ty Moel Isaf, gobeithio bydd mwy o wybodaeth gan Lizzie Wynne erbyn hynnu.

7 Cynllunio

- 7.1 **Ceisiadau** – ni fu ceisiadau i'w cyflwyno

- 7.2 **Penderfyniadau** – cafwyd wybod bod cais Bryn Haul, Llaneilian (HHP/2020/214) wedi ei ganiatau a nodwyd yr amodau perthnasol. Cytuno ei fod yn bwysig atgoffa CSYM o'r amodau sydd ar gael iddynt gan nodi bod angen i'r swyddogion ganiatau datblygiadau onibai bod rhesymau cryf yn eu herbyn.

- 7.3 **Gorfodaeth** – ni fu diweddariad am yr achosion gorfodaeth. Gofynnwyd i'r clerc gysylltu a'r swyddogion perthnasol i ofyn am ddiweddariad a chadarnhad o'u bwriad. Teimlwyd y byddai ond yn gwrtais i CSYM adael i ni wybod os nad oeddennt am gymryd camau pellach. CET

8 Materion Ariannol

- 8.1 **Taliadau** - Cymeradwywyd y taliadau canlynol –
£34.99 Home Bargains (goleuadau Nadolig)
£25.50 Tri torch (Beddi Ty Moel)
£679.56 CSYM (tal cynllun llithrfa)
£56.17 Huws Gray (meinciau TMI)
£4.88 Screwfix (meinciau TMI)
£56.17 Huws Gray (meinciau TMI)
£14.97 Huws Gray (meinciau TMI)
£2340.00 Richard Edwards (torri gwair y Fynwent)
£57.00 Dafydd Griffiths (hyfforddiant)
£25.00 Hefina Williams (hampr cystadleuaeth Nadolig)
£213.00 Carli Evans Thau (costau Hyd-Rhag)
£506.57 Carli Evans Thau (cyflog a gweinyddu llithrfa)
£256.45 Archwilio Cymru (archwilaid 19/20)

Nodwyd bydd taliadau yn ymwneud a gosod meinciau a'r tri torch i'w hawlio yn ol gan Gronfa TMI. CET

- 8.2 **Adroddiad Chwarterol** – cadarnhawyd bod copi o'r adroddiad wedi ei anfon i'r aelodau cyn y cyfarfod. Aeth y clerc drwy'r ddogfen fesul penawd er gwybodaeth a bu tynnu sylw'r aelodau ei bod wedi ychwanegu penawd 'prosiectau TMI' i'r incwm a'r gwariant er mwyn dangos yr arian yn symud drwy gyfrif y Cyngor. Ni fu cwestiynnau

- 8.3 **Ceisiadau am Arian** - Daw cais gan Radio Ysbyty Gwynedd ac Ambiwllans Awyr Cymru. Er nad yn weithredol yn benodol yn ardal Llaneilian, mae'r ddau yn wasanaeth sydd o fudd i drigolion yr ardal. Cynigwyd bod y Cyngor yn cyfrannu £50 yr un i'r ddau gorff wrth gydanabod y pandemig ac nad oedd modd iddynt godi arian yn eu ffyrdd arferol. Cynnig Hefina Williams, eilio Thomas Jones. CET

- 8.4 **Cyllideb 2021/22** – cadarnhawyd bod dogfen wedi ei anfon at yr aelodau yn dilyn cyfarfod y

pwyllgor cyllid. Mae'r daenlen yn dilyn yr un templed a'r arfer ac yn dangos penawdau gwariant ac incwm disgwylid y Cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf ynghyd a'r hyn sydd yn y banc ar hyn o bryd, yr arian sydd wedi ei glustnodi a'r arian wrth gefn. Bu Ian Evans adael y cyfarfod, gofynnwyd i'r clerc aros tra bu trafod argymhellion y pwyllgor cyllid. Ni fu cwestiynau am y ddogfen yn gyffredinol.

Nododd Elfyn Hughes bod cyflog y clerc wedi ei seilio ar raddfa cenedlaethol ac yn codi yn awtomatig pob blwyddyn. Yn ogystal a chyflog, mae tri taliad arall i'r clerc sef lwfans car, lwfans ystafell a thal rheoli mynwent Bosra; nodwyd nad oedd y clerc yn derbyn y swm llawn oedd wedi ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer y tri yma.

Argymhelliant y pwyllgor cyllid oedd bod tal lwfans car ac ystafell yn codi yn unol a'r swm cyfatebol yn y gyllideb, a bod hyn yn digwydd yn awtomatig o hyn allan. Cytuno yn unfrydol. Nodwyd bod y clerc wedi derbyn yr un swm am reoli mynwent Bosra ers y cychwyn, er bod y swm a dderbynir gan yr Henaduriaeth wedi codi yn flynyddol. Argymhelliant y pwyllgor cyllid oedd bod y clerc yn derbyn 90% o'r hyn a dderbynir gan yr Henaduriaeth o hyn allan gyda'r Cyngor yn cadw 10% tuag at gostau postio ayyb. Cefnogwyd yn unfrydol. Cynnigwyd bod y clerc yn derbyn ol-dal am reoli'r fynwent (i'w dalu o'r arian wrth gefn) wedi ei seilio ar 90% o'r hyn daliwyd gan yr Henaduriaeth – bydd gwahaniaeth o £832 yn ddyledus i'r clerc. Ni fu gwrthwynebiad.

CET

Derbyniwyd argymhellion y pwyllgor cyllid, cyllideb y Cyngor 2021/22 fydd £23,967.81.

- 8.5** **Priseb 2021/22** – Argymhelliant y pwyllgor cyllid yw peidio a chodi'r dreth eleni wrth ystyried yr arian wrth gefn sydd gan y Cyngor, a'r sefyllfa annodd sy'n gwynebu nifer o'r gymuned yn sgil covid-19. Nodwyd bod y Cyngor yn y gorffennol wedi codi'r dreth ychydig pob blwyddyn er mwyn osgoi naid mawr, bydd asesu hyn eto y flwyddyn nesaf.

Cytuno yn unfrydol mai'r briseb ar gyfer 2021/22 fydd £13,018.63, sef cynydd o 0%.

Bu Thomas Jones ddiolch i'r pwyllgor cyllid am eu gwaith i baratoi'r gyllideb. Bu Elfyn Hughes ddiolch i'r clerc am baratoi'r daenlen ar ran y pwyllgor.

CET

9 **Iechyd a Diogelwch**

- 9.1 Llwybr Lon Lletroed – bu tynnu sylw bod y llwybr yma mewn cyflwr gwael ac angen sylw. Nodwyd nad oedd yn lwybr cyhoeddus ond yn hytrach hen lon. Mae llawer iawn o ddefnydd ohono ac mae'r wyneb angen sylw brys. Aled Jones i gysylltu a'r adran briffyrdd i dynnu sylw.

AMJ

- 9.2 Palmant Cerrig Man – mae swyddogion CSYM wedi ymweld a'r safle ac mae gwaith ar y gweill. Bu Aled Jones ddiolch i Gordon Hayes an anfon y lluniau ato er sylw'r swyddogion.

- 9.3 Gwli – mae'r gwaith i ddiogelu'r gwli ger Maes Llwyfo wedi ei gwblhau, nodwyd bod y cwmni wedi gwneud gwaith taclus a cyflym.

10 **Gohebiaeth**

Cadarnhaodd y clerc bod unrhyw ohebiaeth wedi ei anfon ymlaen drwy ebost wrth eu derbyn.

11 **Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon**

Cadarnhawyd bod Dafydd Griffiths wedi anfon llythyr at gynghorau gogledd Mon gyda copi o'r cyfansoddiad er gwybodaeth. Cadarnhawyd bod y wybodaeth wedi ei anfon ymlaen i'r aelodau drwy ebost. Nodwyd bod y Partneriaeth wedi bod yn weithgar iawn tra bu datblygu cais DCO Wylfa Newydd ac wedi dysgu llawer iawn ar y daith. Teimlwyd bod rol bwysig i'r Partneriaeth sy'n dod a chynghorau a chynghorwyr yr ardal at eu gilydd.

12 **Ymgyrch Casglu Sbwriel 2021**

Cadarnhawyd bod Dafydd Griffiths wedi pataoi dogfen ai anfon ymlaen i'r aelodau cyn y cyfarfod, mae'r cynnig yn ddibynnol ar waharddiadau covid-19. Awgrymwyd bod y digwyddiad yn cael ei ohurio nes oleiaf yr Hydref gan nodi ei fod yn bwysig cydymffurfio a'r rheolau cenedlaethol. Cytuno cynnwys yr eitem ar agenda mis Ebrill i drafod ymhellach.

CET

Gofynnodd Glenys Jones os oedd unrhyw gyfrifoldeb ar CSYM i godi ysbwriel gan nodi bod caniau cwrw a photeli di-ri ar Lon Gadfa. Aled Jones i gysylltu a'r swyddogion perthnasol i dynnu sylw. Nodwyd bod contractwyr CSYM yn gwneud gwaith da iawn mewn manau eraill ar hyd yr A5025.

AMJ

13 **Unrhyw fater ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf**

- 13.1 System un-ffordd yn y pentref – cytuno cynnwys yr eitem ar yr agenda mis nesaf i drafod ymhellach, nid oedd rhai aelodau yn fodlon ag ymateb Alun Roberts ac am iddo ail-ystyried.

CET

Teimlwyd bod y swyddog wedi gwneud penderfyniad yn seiliedig ar un agwedd yn unig. Bydd trafodaeth pellach am ddatblygu system un ffordd o Stad Tynrhos hyd Stad Penysarn Fawr, a phleidlais cyn ysgrifennu eto at yr adran briffyrdd.

- 13.2 Gwyro Ffordd – nodwyd bod CSYM wedi gwyro traffig o Allt Nebo oherwydd gwaith ar y ffordd, yn anfodus roedd y gwriad yn mynd a cerbydau yn syth drwy'r pentref, wyneb yn wyneb a mwy o waith a goleuadau traffig. Gofynnwyd pam nad oedd yr arwyddion gwyro wedi danfon cerbydau yn syth i'r ffordd osgoi.
- 13.3 Llwybr yr Arfordir – bu Thomas Jones gynnig iddo yntau a Rolant Williams rannu gwybodaeth am hanes am enwau gwahanol ogofeydd, cilfannau ac ynysoedd ar hyd yr arfordir. Byddai hyn o gymorth i ddiogelu enwau hanesyddol a'u hyrwyddo i bobl lleol ac ymwelwyr. Byddai posib cynnwys y wybodaeth ar fapiau a byrddau gwybodaeth megis yn y cysgodfannau bws. Cytuno ei fod yn syniad da ac byddai cynnwys yr eitem ar agenda cyfarfod nesaf y pwyllgor llwybrau. CET
- 13.4 Blychau Halen – nododd Dafydd Griffiths nad oedd y blychau i gyd ar Fynydd Eilian wedi eu llenwi a gofynnod os oedd rheswm am hyn. CET

14 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor i'w gynnal nos Fawrth Chwefror 9, 2021 am 7 o'r gloch. Bydd cyfarfod ymddiriedolwyr Cronfa Ty Moel Isaf am 6 o'r gloch yr un noson. Cynhelir y cyfarfodydd drwy gynhadledd fideo.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.40

**Arwyddwyd
Ian Evans
Cadeirydd**

CET1/2021